Gwraig i'r ffermwr

Caredigrwydd / diolchgarwch / dyfalbarhad

Yn ystod mis Hydref, bob blwyddyn, bydd plant yn yr ysgolion yn cynnal gŵyl o ddiolchgarwch am y cynhaeaf. Fyddwch chi'n gwneud hynny yn eich ysgol chi? Fyddwch chi'n dod â ffrwythau a llysiau i'r ysgol? Gŵyl ydi hon i ddiolch i Dduw am y cynhaeaf. Mae'r stori hon yn sôn am gyfnod yn Israel pan nad oedd cynhaeaf. Roedd hi wedi bod mor sych, doedd y ddaear ddim wedi dwyn ffrwyth.

Doedd hi ddim wedi bwrw glaw ers misoedd. Roedd y ddaear yn sych. Doedd dim yn tyfu yn unman. Pan ddaeth y cynhaeaf doedd dim cnwd. Roedd rhaid i'r teuluoedd symud o'r wlad i chwilio am fwyd. Aeth un teulu i fyw i Moab, sef Elimelech, Naomi a'u dau fab. Byddai'n well ganddyn nhw fyw yn Israel, ond roedd rhaid mynd i chwilio am fwyd.

Ar ôl i'r ddau fab dyfu i fyny, priododd y ddau. Orpa a Ruth oedd enwau eu gwragedd. Yna, digwyddodd rhywbeth dychrynllyd. Bu farw Elimelech a'i ddau fab. Roedd Naomi, gwraig Elimelech, yn drist iawn.

"Paid â phoeni," meddai Orpa a Ruth wrthi, "fe wnawn ni ofalu amdanat ti."

Un diwrnod daeth newydd da o Fethlehem, cartref Naomi. Roedd digonedd o fwyd yno erbyn hyn. Roedd hi am fynd yn ôl i'w gwlad ei hun. Dywedodd Ruth ac Orpa y bydden nhw'n mynd efo hi. Doedd Naomi ddim yn hapus i'r genethod ei dilyn i'w gwlad hi.

"Arhoswch chi yma, gwlad Moab ydi'ch gwlad chi," meddai.

Arhosodd Orpa yn ei gwlad ei hun. Aeth Ruth efo Naomi i'w gwlad ac i Fethlehem. Cawsant groeso mawr gan bawb. Roedd pobl Bethlehem yn falch iawn o weld Naomi yn ôl yn ei gwlad ei hun. Cafodd Ruth groeso hefyd. Roedd pawb yn holi sut amser roedden nhw wedi'i gael yng ngwlad Moab.

Bu'r ddwy yn byw mewn tŷ bychan ym Methlehem. Doedd gan y ddwy ddim arian. Roedd Ruth yn poeni.

"Paid â phoeni, Ruth bach," meddai Naomi, "mi fydd Duw

yn siŵr o'n helpu."

"Yn ein gwlad ni," meddai Naomi, "mae'r ffermwyr yn garedig iawn. Maen nhw'n helpu'r bobl dlawd. Ar ôl torri'r ŷd, maen nhw'n gadael ychydig o gwmpas y caeau i'r bobl dlawd. Mae'n nhw'n gwneud yr un fath efo'r ffrwythau ar y coed. Maen nhw'n gadael ychydig ar ôl i'r bobl dlawd."

Bob dydd, byddai Ruth yn y caeau yn casglu'r ŷd. Gyda'r nos byddai'n mynd o gwmpas i gasglu'r ffrwythau oddi ar y coed. Daeth Boas y ffermwr heibio un bore.

Gofynnodd i'w weision, "Pwy ydi'r ferch yna sy'n casglu'r ŷd?"

"Ruth, y ferch ddaeth o Moab gyda Naomi," meddai un o'r gweision. "Mae hi yma bob dydd yn casglu ŷd a gyda'r nos mae hi'n casglu'r ffrwythau."

"Mae hi angen gŵr," meddai Boas. "Fe gaf air gyda'm cefnder. Ac os na wnaiff ef ei phriodi, yna fe wnaf i."

Ar ôl sgwrsio efo'i gefnder, penderfynodd Boas y buasai ef ei hun yn ei phriodi. Yna byddai Boas a Ruth yn gofalu am Naomi. Priododd y ddau. Ganed bachgen bach iddyn nhw. Roedd pawb yn hapus iawn. Obed oedd enw'r bachgen bach. Bu'r teulu bach fyw yn hapus iawn ym Methlehem.

"...oherwydd i ble bynnag yr ei di, fe af finnau."
Ruth 1:16

Diolch i Ti, O Dduw,
am gyfeillgarwch teulu a ffrindiau.
Amen.

Pa eiriau byddech chi yn eu defnyddio
i ddisgrifio Ruth?